

E-gyhoeddi: Canllawiau Technegol i Gyhoeddwyr Cymru

Cynhyrchwyd gan
Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor
ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru

Fersiwn 1: Chwefror 2012

Rhan I: Canllawiau Cyffredinol

- I.1 Trosolwg
- I.2 EPUB: safon a fformat
- I.3 Rheoli Hawliau Digidol (DRM)
- I.4 Dosbarthwyr Gardners
- I.5 Creu ffeiliau EPUB
- I.6 Adobe InDesign
- I.7 Agor a throsi ffeiliau EPUB
- I.8 Cynnwys ffeiliau EPUB
- I.9 Trosi EPUB i fformatau eraill
- I.10 Amgodio nodau

Rhan II: Cyfarwyddiadau sut i greu e-lyfr EPUB yn InDesign

- II.1 Creu dogfen
- II.2 Creu maes testun
- II.3 Ychwanegu tudalennau
- II.4 Ychwanegu testun y teitl a'r hawlfraint
- II.5 Gosod yr arddull sylfaenol ar gyfer testun yr e-lyfr
- II.6 Gosod arddull ar gyfer testun y teitl a'r hawlfraint
- II.7 Ychwanegu toriad tudalen
- II.8 Ychwanegu paragraffau testun
- II.9 Ychwanegu llythrennau ag acenion
- II.10 Ychwanegu arddulliau trwm, *italig* a thanlinellu etc.
- II.11 Tabl Cynnwys (TOC)
- II.12 Cynhyrchu'r e-lyfr EPUB
- II.13 Dilysu
- II.14 Gwirio pellach

Rhan I: Canllawiau Cyffredinol

I.1 Trosolwg

Bwriada Cyngor Llyfrau Cymru gynnig e-lyfrau i'r cyhoedd drwy ei wefan Gwales, ac annog gwerthwyr llyfrau sydd â gwefannau masnachol i wneud yr un modd. Er mwyn hyn mae wedi penodi Gardners fel ei gyflenwr e-lyfrau. Bydd Gardners yn derbyn ffeiliau ar fformat EPUB gan gyhoeddwy fel y gallant gael eu cyhoeddi fel e-lyfrau gan ddefnyddio system Rheoli Hawliau Digidol (DRM) Adobe i sicrhau bod eu hawliau digidol wedi'u diogelu.

Diben y ddogfen hon yw darparu cyfarwyddiadau a chanllawiau i gynorthwyo cyhoeddwy Cymru i gynhyrchu ffeiliau ar fformat EPUB fel bod modd eu trosglwyddo i Gardners ar gyfer eu hamgryptio a'u dosbarthu. Bydd cynhyrchu llyfrau ar ffurf ffeiliau fformat EPUB hefyd yn hwyluso tasg y cyhoeddwy o gynhyrchu e-lyfrau mewn fformatau e-lyfrau cyffredin eraill.

Byddai'n fanteisiol petai gan y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith trosi beth profiad o HTML a CSS.

I.2 EPUB: safon a fformat

Er mwyn i ffeil e-lyfr gael ei hystyried yn ffeil ar fformat EPUB rhaid iddi hi a'i chynnwys gydymffurfio â'r safon EPUB a ddatblygir gan yr International Digital Publishing Forum.

Mae'r safon hon yn cael ei datblygu'n barhaus. Cyhoeddwyd fersiwn 3.0 o safon EPUB tra oedd y ddogfen hon yn cael ei hysgrifennu. Serch hynny, yn yr adroddiad hwn byddwn yn canolbwyntio ar fersiwn 2 o safon EPUB gan mai dyma'r fersiwn a ddefnyddir amlaf o hyd.

Datblygir y safon EPUB drwy gonsensws aelodau'r IDPF. Mae aelodaeth yr IDPF yn cynnwys cyrff fel Apple, Adobe, Barnes & Noble, Google, Disney, Nokia. Mae'r aelodaeth yn agored; gellir ymuno â'r fforwm am ffi flynyddol drwy lenwi'r ffurflen gais ar y dudalen we hon: <http://idpf.org/membership/application>. Er nad oes angen ymuno er mwyn defnyddio'r safon EPUB, gellid gwneud hynny petai angen dylanwadu ar ddatblygiad y safon yn y dyfodol (er mwyn gweithredu nodweddion sydd o bwys i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, er enghraifft).

Mae EPUB yn safon agored. Golyga hyn:

- ei bod ar gael i bawb (<http://idpf.org/epub>)
- nad oes angen talu ffi trwyddedu er mwyn ei defnyddio
- nad yw'n eiddo cwmni neu gorff masnachol

- bod modd cyfrannu ati, os dymunir.

Mae strwythur y cynnwys sydd o fewn ffeiliau EPUB yn seiliedig ar is-set gaeth o HTML, sef y dechnoleg a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer creu strwythur a chynnwys gwefannau. Drwy gyfyngu'r fformat i is-set sy'n galluogi'r nodweddion hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflwyno cynnwys llyfr, sicrhodd EPUB 2.0 y gellid dangos e-lyfrau EPUB ar ddyfeisiau e-ddarllen gweddol syml. Yn hynny o beth, nod safon EPUB yw pennu fformat agored safonol sy'n galluogi llifo ac ail-lifo testun, delweddau a thudalennau llyfr mewn modd priodol ar sawl math gwahanol o ddyfais neu feddalwedd e-ddarllen, waeth beth fo'u maint, natur eu rhyngwyneb, math o sgrin, eu gallu i ddangos lliw ayb.

I.3 Rheoli hawliau digidol (DRM)

DRM (Digital Rights Management) yw'r acronym ar gyfer meddalwedd neu ddarn o god sy'n galluogi'r sawl sy'n berchen ar yr hawliau deallusol ar gyfer cyfrwng digidol penodol (fel ffeiliau cerddoriaeth ac e-lyfrau, er enghraifft) i reoli eu dosbarthiad y tu hwnt i'r weithred o'u trosglwyddo i'r cwsmer y tro cyntaf.

Er enghraifft, gellir gweithredu DRM drwy gyfyngu ar nifer y copïau y mae modd eu gwneud o'r cyfrwng, neu drwy gyfyngu ar nifer y dyfeisiau gwahanol y gellir dangos neu chwarae'r cyfrwng arnynt.

Mae'r DRM a ddefnyddir gydag e-lyfrau yn tueddu i fod yn annibynnol ar fformat yr e-lyfr. Mae sawl dull DRM ar gael ar gyfer fformat EPUB, er enghraifft, ond nid oes rhaid defnyddio DRM o gwbl os na ddymunir gwneud hynny.

Yn DRM e-lyfrau y mae Cyngor Llyfrau Cymru yn ei ddarparu trwy gytundeb â Gardners yw Adobe DRM. Dyma'r DRM a ddefnyddir gan sawl cwmni blaenllaw.

Ar hyn o bryd, o'r holl e-lyfrau sydd â DRM yn eu diogelu, EPUB ac Adobe DRM arno yw'r un sy'n cael ei gefnogi gan yr amrywiaeth mwyaf o ddyfeisiau a meddalwedd e-ddarllen ar y farchnad.

Mae rhestr o'r dyfeisiau a'r feddalwedd sydd â thrwydded i ddangos e-lyfrau EPUB â DRM Adobe ar gael yma:

<http://blogs.adobe.com/digitalpublishing/supported-devices>

Os nad yw cyhoeddwr yn ystyried rheoli hawliau digidol yn flaenoriaeth, gall y cyhoeddwr hwnnw gyhoeddi ffeiliau EPUB heb unrhyw fath o DRM. Byddai hyn yn golygu y byddai'r e-lyfr yn gweithio gyda dyfeisiau neu feddalwedd sy'n cefnogi EPUB ond nad ydynt yn gytûn ag Adobe DRM. Gellir hefyd ddefnyddio rhaglen Calibre i drosi ffeil EPUB i fformat MOBI. Byddai hyn yn caniatáu ei dosbarthu heb DRM ar gyfer dyfeisiau neu feddalwedd Kindle. Dylai unrhyw gyhoeddwr sy'n bwriadu

gwneud hyn ystyried goblygiadau'r penderfyniad hwnnw yn ofalus; unwaith y dosberthir copïau heb DRM, ni fydd modd rhwystro trosi'r copïau hynny'n gopïau pellach yn y dyfodol.

Amazon yw'r unig gwmni sy'n gallu dosbarthu e-lyfrau ar gyfer dyfais neu feddalwedd Kindle **gyda DRM wedi ei alluogi arnynt**. Mae modd i eraill greu e-lyfrau y gellir eu darllen gan ddefnyddio Kindle, a hynny yn annibynnol ar Amazon, ond ni fyddai modd gosod DRM ar y llyfrau hyn.

I.4 Dosbarthwyr Gardners

Mae angen i gyhoeddwr sy'n awyddus i ddosbarthu e-lyfrau drwy wefan Gwales Cyngor Llyfrau Cymru drefnu gyda Gardners i drosglwyddo'u ffeiliau EPUB iddynt. Bydd Gardners yn rhoi cyfarwyddyd pellach i gyhoeddwr sut i wneud hynny.

I wneud y trefniadau trosglwyddo gyda chwmni Gardners mae angen cysylltu ag:

Ali Balaban
Gardners Books Ltd
eBook Buyer
1 Whittle Drive
Eastbourne
East Sussex
BN23 6QH
Gwaith: 01323 521555 Est 42052
Symudol: 0788 7951280
ali.balaban@gardners.com

Bydd Gardners yn gosod DRM ar yr e-lyfr hwnnw ac yn galluogi iddo gael ei ddosbarthu trwy wefan Gwales, gwefannau siopau llyfrau, a llyfrgelloedd sydd â chyfrifon gydag Askews.

Bydd y DRM a osodir ar yr e-lyfr yn gosod cyfyngiadau ar bob copi a brynir gan gwsmeriaid gwefan Gwales.

Gweler adran FAQs Adobe Digital Editions am ragor o fanylion:

<http://www.adobe.com/products/digitaleditions/faq/>

Mae perygl ynghlwm wrth gyflwyno llyfrau Cymraeg i Gardners ar ffurf PDFs neu ddelweddau, ar waethaf yr wybodaeth ganlynol ar eu gwefan:

Digitise your hard copy using a proven process of scanning, OCR proofing and tagging. This process has an accuracy level of less than 20 defects in a million characters which amounts to 99.998% accurate content.

http://www.gardners.com/gardners/content/Publishers/Digital_Warehouse/Digital_Corp_Brochure.pdf

Nid yw'r broses hon yn addas ar gyfer y Gymraeg oherwydd bod y feddalwedd sganio OCR a ddefnyddir yn seiliedig ar gyfuniadau llythrennau'r iaith Saesneg.

1. Gall y testun o fewn dogfen PDF fod wedi'i gadw ar ffurf delwedd o'r testun yn hytrach na chyfres o nodau (llythrennau ac ati) digidol.
2. Mae dogfennau PDF yn tueddu i gadw testun dogfen fesul llinell, gan osod stop caled ar ddiwedd pob llinell. Mae hyn yn rhwystro'r testun rhag llifo, o'i drosi i fformat arall.

Er bod Gardners yn gywir i honni bod y canlyniadau a geir o ddefnyddio meddalwedd OCR yn dda iawn ar gyfer y Saesneg, nid yw'n berffaith. Er enghraifft, yn fersiwn e-lyfr Amazon o *A Clash of Kings: Book Two of A Song of Ice and Fire* gan George R. R. Martin, mae enghraifft o'r gair 'litter' wedi ei drosi ar gam yn 'Utter':

"and a mother cat with a Utter of new-born kittens."

Location 3750 – 3754

Mae'r gwall hwn yn nodweddiadol o wall sganio. I'r cyfrifiadur, mae 'li' yn edrych yn debyg i 'U'. Ni fyddai golygydd dynol wedi ychwanegu'r gwall hwn.

Am y rhesymau a restrir uchod, argymhellir na ddylid ceisio trosglwyddo PDF o lyfr Cymraeg i Gardners i'w drosi'n e-lyfr drwy ddefnyddio OCR.

I.5 Creu ffeiliau EPUB

Er y gellid creu EPUB â llaw gan ddefnyddio rhaglen golygu testun syml fel *Notepad* [jedisaber.com epub], yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae'n gynt ac yn haws defnyddio meddalwedd sydd wedi'i chreu neu ei haddasu'n bwrpasol ar gyfer cynhyrchu e-lyfrau yn y fformat hwnnw.

Er mwyn trosi llyfr sydd eisoes wedi'i osod ar gyfer print i ffurf e-lyfr, mae gan feddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith traddodiadol fel Quark ac InDesign bellach y gallu i gynhyrchu fersiynau e-lyfr o ddogfennau a grëir ynddynt.

Lle nad oes fersiwn wedi'i osod ar gyfer print yn bodoli, gellir dewis creu e-lyfr yn Quark neu InDesign neu ddefnyddio Sigil, meddalwedd rydd ac am ddim sy'n canolbwyntio'n unig ar greu e-lyfrau. Mae rhyngwyneb Sigil yn llawer symlach na rhyngwyneb Quark ac InDesign, ac mae'n canolbwyntio'n unig ar y nodweddion hynny sy'n drosglwyddadwy i e-lyfr. O ganlyniad, mae'n ddefnyddiol iawn ar gyfer creu e-lyfrau lle na fwriedir cyhoeddi fersiwn print ohonynt. Mae Sigil hefyd yn cynnwys sawl nodwedd sy'n ei wneud yn arf defnyddiol ar gyfer tacluso a mireinio e-lyfrau a gynhyrchir gan InDesign a QuarkXpress.

Ni thrafodir QuarkXpress yn fanwl yn y canllawiau hyn, ond ewch i <http://www.youtube.com/watch?v=7t6g4kdXL3Y> i weld tiwtorial fideo sy'n dangos sut i gynhyrchu e-lyfr gan ddefnyddio QuarkXpress 9.

Dewis arall fyddai creu'r llyfr mewn rhaglen arall fel Microsoft Word, a chadw copi o'r llyfr hwnnw ar ffurf HTML.

File > Save As > Save as type: > Web, Filtered

Gellir agor y ddogfen HTML honno o fewn rhaglen golygu testun fel Notepad++ (sydd ar gael o'r we am ddim) a chopio'r cod draw i *Code View* Sigil (*View > Code View*), a golygu'r testun yn SIGIL o hynny allan.

Yn wahanol i Quark ac InDesign, nid yw'n ceisio darparu ar gyfer cyhoeddi print.

Mae Sigil hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer golygu e-lyfrau a gynhyrchwyd gan raglenni eraill e.e. InDesign oherwydd ei fod yn caniatáu i chi edrych oddi mewn i'r ffeil EPUB er mwyn golygu cod y ffeil yn uniongyrchol a gweld y newidiadau hynny ar waith.

Mae gwybodaeth fanwl ar y broses o drosglwyddo testun i Sigil i greu e-lyfr EPUB ar gael o'r gwefannau hyn:

<http://www.paulsalvette.com/2011/08/turning-manuscript-into-clean-xhtml.html#c6>

<http://www.jedisaber.com/eBooks/>

I.6 Adobe InDesign

InDesign yw'r rhaglen cyhoeddi bwrdd gwaith a ddefnyddir yn fewnol gan Gyngor Llyfrau Cymru.

InDesign yw'r rhaglen cyhoeddi bwrdd gwaith fwyaf poblogaidd ar y farchnad ar hyn o bryd, a fersiwn CS 5.5 yw'r fersiwn cyfredol ohoni. Awgrymir y dylai unrhyw gyhoeddwr sydd am ddefnyddio InDesign i gynhyrchu e-lyfrau ddiweddarau i'r fersiwn cyfredol gan ei fod yn cynnwys nifer o welliannau i'r ddarpariaeth e-gyhoeddi.

Mae gan InDesign CS 5.5 y gallu i gynhyrchu ffeil EPUB o ddogfen InDesign. Mae'r nodwedd hon ar gael drwy glicio ar *File > Export* ac yna dewis EPUB o'r gwymplen *Save as type:* (noder bod y drefn hon yn wahanol i drefn InDesign CS 5, sef clicio ar *File > Export for > EPUB*). Fodd bynnag, cyn defnyddio InDesign i gynhyrchu dogfen ar ffurf EPUB, dylid paratoi'r cynnwys er mwyn i'r ffeil gynhyrchu'n lân.

Wrth osod dogfen gan ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith, gellir pennu arddulliau penodol i'w defnyddio gyda pharagraffau, penawdau ac elfennau fel teip trwm ac italig, a thanlinellu. Mae'n bwysig defnyddio'r arddulliau hyn wrth greu dogfen a fydd yn cael ei throsi'n e-lyfr.

Mae InDesign yn rhannu'r arddulliau hyn yn ddau fath, sef *arddulliau nodau* (character styles) ac *arddulliau paragraff*. Defnyddir arddulliau nodau ar gymalau, geiriau a llythrennau unigol o fewn paragraffau er mwyn eu gosod mewn teip **trwm**, *italig* neu danlinellu, heb newid arddull y paragraff cyfan.

Defnyddir arddulliau paragraff ar gyfer rheoli arddull paragraffau cyfan, er enghraifft er mwyn gosod maint uchder llinellau'r paragraff neu fewnoli'r llinell gyntaf.

Wrth gynhyrchu e-lyfr o'r ddogfen, mae'n *hanfodol* fod defnydd trwyadl a chyson wedi'i wneud o arddulliau paragraffau ac arddulliau nodau yn y ddogfen sydd i'w chyhoeddi. Bydd gwneud hynny'n gymorth mawr i sicrhau y caiff yr e-lyfr ei gynhyrchu'n gywir.

Ceir canllawiau manwl ynghylch sut i ddefnyddio InDesign i greu ffeiliau EPUB yn rhan II y ddogfen hon.

I.7 Agor a throsi ffeiliau EPUB

Gallwch weld cynnwys ffeil EPUB drwy ei hagog gyda Sigil (gw. I.5 uchod), neu ddilyn y cyfarwyddiadau isod ar gyfer gwneud hynny â llaw drwy drosi'r ffeil yn ffolder ZIP.

Trosi ffeil EPUB yn ffeil ZIP

Yn ei hanfod, ffeil ZIP yw ffeil EPUB, â therfyniad *.epub* yn hytrach na'r terfyniad *.zip* arferol. Gellir profi hyn drwy newid estyniad ffeil EPUB o *.epub* i *.zip*.

Mae'n bosib y bydd angen i chi newid gosodiadau eich system weithredu i ddangos estyniadau ffeil er mwyn gallu gwneud hyn:

Ar gyfer Windows Vista, Windows 7, a Windows Server 2008

- Agorwch Windows Explorer.
- Cliciwch ar *Organize*.
- Cliciwch ar *Folder a search options*.
- Cliciwch ar y tab *View*.
- Sgroliwch i lawr at Hide extensions for known file types, a dad-dicio'r blwch ticio.
- Cliciwch ar *OK*.

Ar gyfer Windows 2000, Windows XP, and Windows Server 2003

- Agorwch Windows Explorer.
- Cliciwch ar Tools ac yna ar Folder Options.
- Sgroliwch i lawr a chlicio ar *Folder a search options*.
- Cliciwch ar y tab *View*.
- Sgroliwch i lawr at Hide extensions for known file types, a dad-dicio'r blwch ticio.
- Cliciwch ar *OK*.

Ar gyfer Mac OS X, cliciwch ar:

Finder > Preferences > Advanced > Show all file extensions

Er enghraifft, o newid enw ffeil o'r enw *enghraifft.epub* i *enghraifft.zip* byddai modd ei ddatgywasgu a'i agor fel petai'n ffeil ZIP gyffredin. Mae'r ffeil *.epub* felly yn gweithredu fel cynhwysydd ar gyfer nifer o isffolderi a ffeiliau unigol sydd â swyddogaethau gwahanol.

1.8 Cynnwys ffeiliau EPUB

Ar ôl newid estyniad ffeil *.epub* gyffredin i *.zip*, ei datgywasgu a'i hagor, yr hyn a gewch o'i mewn yw dwy ffolder, sef *OEPBS* (Open eBook Publication Structure) a *META-INF*, yn ogystal ag un ffeil fach ond pwysig o'r enw *mimetype*.

OEPBS

Oddi mewn i'r ffolder OEPBS cedwir prif gynnwys yr e-lyfr. Mae'r cynnwys hwnnw wedi'i rannu'n nifer o ffolderi a ffeiliau – rhai ohonynt yn ofynnol a rhai ohonynt yn ddewisol.

Cynnwys y ffolder OEPBS hon a ddangosir yn ffenestr chwith Sigil.

Ffolder 'Fonts' ar gyfer ffontiau (ffolder ddewisol)

Gellir gosod ffontiau penodol o fewn ffeil EPUB fel eu bod ar gael i'w defnyddio o fewn yr e-lyfr. Nid yw pob dyfais na rhaglen e-ddarllen yn caniatáu i e-lyfr bennu'r ffont a ddefnyddir wrth ddangos cynnwys e-lyfr. Os caiff ffontiau eu mewnbllannu yn yr e-lyfr, yr arfer yw cadw ffeiliau'r ffontiau hynny mewn ffolder 'Fonts' o fewn y ffolder OEPBS.

Cynnwys yr e-lyfr ar ffurf ffeiliau HTML

O fewn y ffolder OEPBS ceir ffeiliau *.html* rhydd, er enghraifft *pennod1.html*, *pennod2.html*. Y rhain yw'r ffeiliau sy'n cynnwys tudalennau a thestun yr e-lyfr. Fel arfer, mae'r ffeiliau XHTML unigol hyn yn cyfateb i benodau neu adrannau unigol y llyfr. Mae rhannu cynnwys y llyfr fel hyn yn lleihau'r baich ar gof y ddyfais e-ddarllen, ond gellir rhannu cynnwys llyfr yn fwy mympwyol na hyn heb i'r rhaniadau fod yn amlwg i'r darlennydd. Yn ôl safon EPUB, dylai'r ffeiliau unigol hyn fod yn llai na 300kb yr un, gan y gall defnyddio ffeiliau mwy arafu'r ddyfais neu'r feddalwedd e-ddarllen.

Tabl cynnwys - *toc.ncx*

Saif 'toc' am 'table of contents', a dyma'r enw a roir yn gyffredin ar y ffeil *.ncx* a geir yn y ffolder OEPBS. Mae gan y mwyafrif o ddyfeisiau a rhaglenni meddalwedd e-ddarllen y gallu i ddangos panel llywio gyda thabl cynnwys yr e-lyfr ar ffurf dolenni sy'n caniatáu i ddefnyddwyr neidio'n syth i adrannau neu benodau penodol. Mae'r ffeil *toc.ncx* yn pennu strwythur y panel llywio hwn.

Ffolder 'Images' ar gyfer delweddau

Y ffolder 'images' o fewn y ffolder OEBPS yw'r lleoliad lle caiff unrhyw ddelweddau a geir o fewn yr e-lyfr eu cadw. Gellir cadw'r delweddau ar ffurf *gif*, *jpg* neu *png*.

Folder 'Styles' – arddulliau CSS

Rheolir arddulliau gweledol yr e-lyfr gan ffeil neu ffeiliau .css. Caiff y rhain eu cadw fel rheol o fewn ffolder o'r enw *Styles* o fewn y ffolder OEBPS. Wrth greu e-lyfr gan ddefnyddio InDesign, bydd InDesign yn trosi'r arddulliau paragraff a'r arddulliau nod yn arddulliau CSS. Fel arfer, cânt eu storio gyda'r arddulliau angenrheidiol eraill mewn ffeil o'r enw *templates.css*.

Saif CSS am 'cascading style sheet'. Mae ffeil CSS yn cynnwys arddulliau ar gyfer gwahanol elfennau'r e-lyfr. Cyfeiria'r elfen 'cascading' at y ffaith fod arddull uwchelfen yn goferu i'w his-elfennau. Dyma a ddefnyddir hefyd i reoli gosodiad gwefannau.

Mae ffeil EPUB ddefnyddiol ar gael o'r wefan ganlynol er mwyn profi sut y mae gwahanol arddulliau'n ymddangos mewn gwahanol e-ddarllenwyr:

<http://rufus.deuchler.net/2010/10/css-and-xhtml-tags-for-epub.html>

Mae ymdriniaeth lawn o CSS y tu hwnt i gylch gorchwyl y canllawiau hyn, ond mae nifer o adnoddau defnyddiol a chynhwysfawr i'w cael ar y we yn rhad ac am ddim, e.e. W3schools:

<http://www.w3schools.com/css/default.asp>

Gair o rybudd – er ei ymrwymiad i safon CSS, nid yw pob e-ddarllenydd wastad yn dehongli CSS yn yr un modd.

content.opf

Hon yw'r ffeil sy'n cynnwys manylion yr e-lyfr. Mae'r manylion hyn yn cynnwys y canlynol:

Metadata

e.e.

- teitl yr e-lyfr
- manylion ffeil clawr y llyfr
- awdur(on) yr e-lyfr
- allweddeiriau pwnc yr e-lyfr
- disgrifiad o'r llyfr
- manylion y cyhoeddwr

- dyddiad cyhoeddi
- hawlfreintiau
- manylion iaith
- rhif adnabod unigryw (e.e. ISBN)

etc.

Manifest

Rhestr o bob ffeil adnodd a ddefnyddir yn yr e-lyfr, y math o ffeil, a'i lleoliad o fewn y cynhwysydd EPUB.

Enghraifft o gofnod manifest ar gyfer clawr e-lyfr:

```
<item id="clawr.gif" href="images/clawr.gif" media-type="image/gif"/>
```

Spine

Rhestr o'r dogfennau XHTML sy'n cynnwys testun y llyfr. Mae'r ffeiliau XHTML unigol fel arfer yn cyfateb i benodau neu adrannau unigol yr e-lyfr. Cânt eu rhestru yn eu trefn ddarllen.

META-INF

Y prif ffeil a geir yn y ffolder hon yw'r ffeil *container.xml*. Pwrpas y ffeil honno yw cyfeirio'r e-ddarllenydd at y ffeil (sef *content.opf* yn y ffolder *OEPBS* fel arfer) sy'n cynnwys holl fanylion yr e-lyfr, gan gynnwys metadata fel enw'r awdur a'r cyhoeddwr, yn ogystal â rhestr o'r holl ffeiliau a ddefnyddir gan yr e-lyfr.

Gall y ffolder hefyd gynnwys ffeiliau eraill (fel *encryption.xml* os yw'r e-lyfr yn cynnwys ffontiau sydd wedi'u hamgryptio), ond *container.xml* yw'r unig ffeil ofynnol.

mimetype

Y ffeil fach ddi-nod hon yw'r ffeil sy'n dweud wrth y system pa fath o ffeil ydi hi. Un o'r gwallau cyffredin wrth greu ffeil EPUB â llaw (yn hytrach na mewn rhaglen fel InDesign) yw cywasgu'r ffeil hon wrth gywasgu'r ffolder EPUB. Wrth greu ffeil EPUB â llaw, dylid ychwanegu'r ffeil hon i'r ZIP *heb* ei chywasgu.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

<http://wiki.mobileread.com/wiki/EPub>

I.9 Trosi EPUB i fformatau eraill

Mae creu e-lyfr ar fformat EPUB hefyd yn fan cychwyn da ar gyfer ei drosi i un o'r prif fformatau eraill ar gyfer e-lyfrau.

Er enghraifft, gellir defnyddio'r rhaglen cod agored Calibre i drosi llyfr fformat EPUB

yn ffeil fformat AZW neu MOBI. Yr un yw'r ddau fformat mewn gwirionedd, gan fod fformat AZW cwmni Amazon wedi'i seilio ar fformat e-lyfrau Mobipocket (.mobi neu .prc) a ddatblygwyd gan gwmni o'r un enw a brynwyd gan Amazon yn 2005. Y prif wahaniaeth rhwng ffeiliau AZW a ffeiliau Mobipocket (sydd ag estyniad .prc neu .mobi) yw y gall ffeiliau AZW gynnwys DRM Amazon.

Gall Amazon dderbyn e-lyfrau ar ffurf EPUB gan gyhoeddwyr a'u trosi ar eu cyfer i fformat AZW.

Ar hyn o bryd, nid yw Amazon wedi galluogi eu dyfeisiau a'u meddalwedd e-ddarllen hwy i weithio gyda fformat EPUB na DRM gan ddarparwyr allanol. Yr unig ffordd y gall cyhoeddwr gyhoeddi e-lyfr sydd wedi'i ddiogelu â DRM ar gyfer Kindle yw trwy ei gyflwyno i Amazon a'i werthu ar wefan Amazon.

Maent bellach yn derbyn llyfrau Cymraeg a gellir cysylltu'n uniongyrchol â hwy am gymorth ychwanegol os oes angen.

I.10 Amgodio Nodau

Wrth symud testun o un ddogfen i'r llall, rhaid bod yn ofalus na chaiff yr amgodio a ddefnyddir ar gyfer y nodau (y llythrennau, rhifau ac ati) ei newid yn ddamweiniol, gan y gall hyn arwain at golli'r acenion oddi ar yr *ŵ* a'r *ŷ*, neu i'r llythrennau hynny gael eu cynrychioli â *?*.

Mae sawl set nodau (character set) gwahanol yn bodoli, er enghraifft *ASCII* sy'n cynnwys llythrennau di-acen yn unig, ac *ISO-8859-1* sy'n cynnwys y llythrennau acennog a geir yn ieithoedd mwyaf cyffredin Ewrop, ond sydd heb ddarpariaeth ar gyfer *ŵ* ac *ŷ*.

Pan fyddwch yn copïo testun sy'n cynnwys *ŵ* ac *ŷ* i raglenni golygu testun fel Notepad++ sicrhewch fod yr amgodio mae'r rhaglen yn ei ddefnyddio ar gyfer y ddogfen wedi'i osod i *UTF-8* neu fe all yr acenion gael eu colli.

Gweler <http://www.fileformat.info/info/unicode/> am restr chwiliadwy o'r glyffiau a geir yn *UTF-8*, neu <http://unicode.org/charts/PDF/U0100.pdf> am ddogfen PDF sy'n eu rhestru.

Mewnbynnu nodau arbennig i god

Gellir defnyddio gwahanol godau er mwyn cynrychioli'r nodau arbennig hyn mewn cod:

Er enghraifft, mae'r **enw endid** ŵ a'r **rhif endid** ŵ ill dau yn cynrychioli'r llythyren 'ŵ'. Mae'r enw endid yn fwy ymarferol o ran defnyddwyr.

Ŵ	Ŵ	U+00174	Ŵ	Ŵ
ŵ	ŵ	U+00175	ŵ	ŵ
Ŷ	Ŷ	U+00176	Ŷ	Ŷ
ŷ	ŷ	U+00177	ŷ	ŷ

Mae'r arbenigwr Paul Salvette yn awgrymu trosi nodau yn enwau endid HTML mewn cod. Ond, nid oedd safon HTML 4 yn cynnwys enwau endid HTML ar gyfer 'ŵ', 'Ŵ', 'ŷ' ac 'Ŷ' ac o ganlyniad nid yw enwau endidau fel ŵ ac ŷ yn gweithio gyda ffeiliau e-lyfrau, er bod â er enghraifft yn gwneud hynny.

Pwysigrwydd ffontiau

Cofiwch hefyd na fydd ŵ ac ŷ yn ymddangos yn gywir er i chi ddewis yr amgodio cywir os na fydd gan y ffont a ddefnyddir glyffiau (delwedd sy'n cynrychioli llythyren) ar gyfer ŵ ac ŷ.

Nodau argraffwyr

Gellir hefyd ddefnyddio'r adnoddau Unicode uchod i ddarganfod y codau cywir ar gyfer nodau atalnodi e.e.:

- elipsis
- llinellau toriad (−, −, −,)
- dyfnodau 66 a 99 (‘ ’, “ ”)

Gweler hefyd:

<http://en.wikipedia.org/wiki/Dash>

Rhan II: Cyfarwyddiadau sut i greu e-lyfr EPUB yn InDesign

II.1 Creu dogfen

I'r defnyddiwr newydd, y cam cyntaf yw creu dogfen brawf i arbrofi â hi. I lunio dogfen newydd yn InDesign mae angen clicio ar:

File > New > Document

Byddwn yn creu dogfen a fydd yn gweithio fel sail ar gyfer llyfr print ac e-lyfr, felly bydd angen nodi eich bwriad fel *Print*:

Intent: Print

Os ydych yn dymuno gweld cynnwys y llyfr fel dwy dudalen agored, ticiwch y blwch ger *Facing Pages*.

☒ *Facing Pages*

Ar gyfer y ddogfen brawf, fe bennwn ni'r *Number of Pages*: yn 1 (bydd modd ychwanegu rhagor o dudalennau wrth weithio).

Mae'r dewisiadau o ran maint y dudalen, nifer y colofnau ac ymyl a chyfeiriadaeth y dudalen yn amherthnasol i'r e-lyfr, felly defnyddiwch yr hyn sy'n briodol ar gyfer gosodiad llyfr print. Os cyhoeddi ar ffurf e-lyfr yn unig yw'r bwriad, gallwch ddewis maint dogfen sy'n ffitio'n dwt ar y eich sgrin, neu sy'n cyfateb i'r brif ddyfais e-ddarllen rydych yn ei thargedu.

II.2 Creu maes testun

Y cam nesaf yw ychwanegu maes testun i'r dudalen. I ddewis yr arf testun (sy'n eich galluogi i greu maes testun), cliciwch ar y botwm â'r llun **T** sydd yn y bar offer ar y chwith yn InDesign.

Caiff yr ardal sydd o fewn ymylon y dudalen ei dangos ag amlinell binc yn InDesign. Mae'n syniad gosod y maes testun o fewn yr ymylon diffiniedig hyn, felly cliciwch a llusgo o gornel chwith uchaf yr amlinell pinc i'r gornel isaf ar y dde. Os oes angen, gellir tacluso'r maes testun ymhellach trwy glicio ar ei gorneli a'u llusgo i'r man cywir.

II.3 Ychwanegu tudalennau

Yn ffenestr y ddewislen *Pages* sydd ar ochr dde y sgrin (cliciwch ar *Windows > Pages* os nad yw yn y golwg), de-gliciwch ar yr eicon tudalen ac yna dewis *Duplicate Page* o'r ddewislen er mwyn creu copi o'r dudalen. Os nad yw *Duplicate Pages* ar gael eto, dewiswch *Duplicate Spread*.

Unwaith y bydd tudalen ychwanegol wedi'i chreu, mae angen gosod y meysydd testun sydd arnynt fel eu bod yn llifo o un dudalen i'r nesaf. Gwneir hyn drwy glicio ar y maes testun ar y dudalen gyntaf er mwyn ei dewis ac yna glicio ar y blwch sgwâr bach glas sydd ar ffrâm y maes testun, fymryn yn uwch na'i chornel dde waelod.

Bydd hyn yn peri i'r pwyntydd newid yn eicon. Dylid yn awr glicio ar faes testun y dudalen nesaf. Bydd hyn yn peri bod y testun yn llifo o'r dudalen gyntaf i'r dudalen nesaf pan fydd y tudalen gyntaf yn llenwi â thestun.

Gallwch glicio ar *View > Extras > Show Text Threads* er mwyn dangos llinellau sy'n dangos pa feysydd testun sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd (rhaid i chi fod wedi clicio ar faes testun iddo fod yn y golwg).

Crëwch 6 tudalen fel y disgrifiwyd uchod yn eich dogfen, gan gofio ychwanegu meysydd testun atynt, a chysylltu un maes testun at y nesaf.

II. 4 Ychwanegu testun y teitl a'r hawlfraint

Y cam nesaf yw ychwanegu testun i'r ddogfen. Ychwanegwch y testun canlynol i dudalen 3 y ddogfen, sef y dudalen deitl a'r hawlfraint:

Teitl
gan Enw'r Awdur
Hawlfraint © 2011 Deiliad yr Hawlfraint

(Gallwch gyfnewid y teitl, enw'r awdur, y flwyddyn, a manylion deiliad yr hawlfraint am destun priodol, os ydych yn dymuno).

II.5 Gosod yr arddull sylfaenol ar gyfer testun yr e-lyfr

Pan gaiff dogfen newydd ei chreu, bydd y ddogfen honno eisoes yn cynnwys arddull paragraff sylfaenol o'r enw *[Basic Paragraph]*. Byddwn yn defnyddio'r arddull hon fel sylfaen ar gyfer arddulliau eraill. Gallwn bennu maint testun a ffont ar gyfer yr arddull hon, a bydd yr holl arddulliau a grëwn yn etifeddu'r maint ffont a'r ffont hwnnw.

Rhaid i'r ffont hwnnw gynnwys glyffiau ar gyfer *ŵ* ac *ŷ* os ydych am i'r llythrennau hynny ymddangos yn gywir yn yr e-lyfr.

Nid yw ffont arferol Adobe Digital Editions yn cynnwys glyffiau ar gyfer *ŵ* ac *ŷ*. Os ydych am i'r llythrennau hynny ymddangos yn gywir yn Adobe Digital Editions, mae'n rhaid:

- dewis ffont sydd â glyff ar gyfer *ŵ* ac *ŷ*
- ei ddefnyddio fel y ffont ar gyfer testun eich e-lyfr
- gosod copi o'r ffont hwnnw *ŵ* ac *ŷ* yn yr e-lyfr

Os ydych yn mynd i fewnblannu ffontiau yn yr e-lyfr, bydd angen defnyddio ffontiau y mae gennych drwydded i'w ddsbarthu. Mae ffontiau rhad ac am ddim sy'n rhydd at y dibenion hyn i'w cael yma:

http://scripts.sil.org/cms/scripts/page.php?item_id=CharisSIL_download

http://en.wikipedia.org/wiki/Liberation_fonts

<https://fedorahosted.org/liberation-fonts/>

http://en.wikipedia.org/wiki/DejaVu_fonts

<http://dejavu-fonts.org/wiki/index.php?title=Download>

Os nad ydych chi'n gyfarwydd â ffeiliau tar.gz, mae'n bosib y bydd angen i chi osod rhaglen echdynnu fel ZipGenius i agor rhai o'r ffeiliau hyn: <http://www.zipgenius.it/>

II.6 Gosod arddull ar gyfer y teitl a'r hawlfraint

Y cam nesaf yw creu arddull benodol ar gyfer y teitl er mwyn cynyddu maint y ffont a ddefnyddir ar ei gyfer, ei ganoli, a newid pwysau'r ffont yn deip trwm. I wneud hyn rhaid defnyddio'r ffenestr *Paragraph Styles*. Os nad yw yn y golwg gennych yn newislen dde InDesign, cliciwch yma i'w hgorffwrdd:

Window > Styles > Paragraph Styles

Ar waelod y ffenestr *Paragraph Styles* mae eicon sy'n debyg i ddalen sgwâr a chornel waelod y dudalen wedi'i throci. Dyma'r eicon *Create new style*. Cliciwch arno i greu arddull newydd o'r enw *Paragraph Style 1*, a fydd yn ymddangos yn y rhestr o arddulliau a ddangosir yn y ffenestr.

- Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull.
- Teipiwch 'Teitl' yn y blwch *Style Name*: dros y teitl presennol.
- Cliciwch ar *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith.
- Newidiwch *Font Style*: i *Bold*.
- Newidiwch *Size*: i *24pt*.

Gallwch ddewis ffont bryd hyn hefyd, ond does dim llawer o ddiben gwneud hynny ar gyfer e-lyfrau gan fod y mwyafrif o ddyfeisiau yn anwybyddu eich dewisiadau.

Er mwyn canoli'r testun Teitl:

- Cliciwch ar *Indents and Spacing* yn y ddewislen ar y chwith ac yna dewiswch *Centre* o'r ddewislen *Alignment*.
- Cliciwch ar *OK*.

Dylech yn awr fod wedi creu arddull paragraff o'r enw *Teitl*. Y cam nesaf yw gosod yr arddull honno ar y teitl.

I wneud hynny, dewiswch destun y teitl fel bod y cyfan ohono wedi'i amlygu, ac yna cliciwch ar yr arddull *teitl* yn y ffenestr *Paragraph Styles*. Bydd hyn yn peri i'r teitl symud i ganol y dudalen, cynyddu o ran maint, a newid i ddefnyddio ffont pwysau trwm.

Dyna greu eich arddull paragraff cyntaf.

Yn yr un modd, mae angen creu arddulliau paragraff ar gyfer llinell enw'r awdur a'r manylion hawlfraint.

Enw'r awdur

Creu arddull a rhoi enw priodol iddi yn y blwch *Style Name*.

Yn *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith:

- Newid *Font Style*: i *Regular*.
- Newid *Size*: i *16pt*.

Yn *Indents and Spacing* yn y ddewislen ar y chwith:

- Newid gosodiad *Alignment* i *Centre*.

Manylion hawlfraint

Creu arddull a rhoi enw priodol iddi yn y blwch *Style Name*.

Yn *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith:

- Newid *Font Style*: i *Italic*.
- Newid *Size*: i *10pt*.

Yn *Indents and Spacing* yn y ddewislen ar y chwith:

- Newid gosodiad *Alignment* i *Centre*.

Canlyniad

Unwaith y byddwch wedi creu a gosod yr arddulliau hynny, dylai testun y dudalen edrych yn debyg i hyn:

Teitl
gan Enw'r Awdur

Hawlfraint © 2011 Deiliad yr Hawlfraint

Gosod bylchau rhwng y llinellau

Braidd yn agos i'w gilydd yw'r llinellau uchod. Wrth weithio gydag InDesign ar lyfr print, y demtasiwn fyddai ychwanegu llinellau ychwanegol rhyngddynt drwy bwysio Enter i greu toriad llinell.

Fodd bynnag, er y byddai'r toriadau llinell ychwanegol hyn yn dangos mewn fersiwn print, nid ydynt yn trosglwyddo o gwbl i e-lyfr EPUB.

Felly, rhaid creu gofod rhwng y llinellau mewn ffordd arall.

Golygu arddull er mwyn gosod bylchau rhwng y llinellau

Un ffordd o greu lle gwag o dan baragraff yw drwy ychwanegu gofod dilynol i'w arddull.

I olygu arddull, dwbl-gliciwch enw'r arddull honno yn y ffenestr *Paragraph Styles*.

Bydd hyn agor dewislen yr arddull. I ychwanegu gofod at ddiwedd y paragraff, cliciwch ar *Indents and Spacing* yn y ddewislen ar y chwith a chynyddu'r hyn a geir yn *Space After*: i ffigwr o'ch dewis chi.

Bydd defnyddio'r arddulliau hyn i greu'r gofod rhwng y paragraffau yn sicrhau bod y gofod hwnnw'n cael ei drosi i'r e-lyfr EPUB.

II.7 Ychwanegu toriad tudalen

Wrth baratoi dogfen a fydd yn cael ei hargraffu yn InDesign, pan fydd angen cychwyn tudalen newydd heb i'r dudalen gyfredol fod wedi'i llenwi â thestun, yr arfer yw defnyddio toriadau llinell, e.e.:

Type > Insert Break Character > Page Break

Defnyddiwch y dull uchod i osod toriad llinell ar ôl y llinell hawlfraint.

Yn anffodus, ni fydd toriad tudalen o'r math hwn yn trosglwyddo i e-lyfr EPUB, ond mae'n bwysig parhau i ddefnyddio'r toriadau llinell hyn er mwyn creu toriad tudalen sy'n ymddangos o fewn fersiwn print yn ogystal ag o fewn y ddogfen InDesign wrth i chi weithio.

Er mwyn creu toriadau tudalen a fydd yn gweithio mewn e-lyfr EPUB rhaid defnyddio arddull paragraff.

Wrth gynhyrchu EPUB o'r ddogfen InDesign (*File > Export > Save as type: EPUB*), fe fydd ffenestr *EPUB Export Options* yn ymddangos. O dan *Contents*, mae llinell a'r testun *Break Document at Paragraph Style*: arni. O roi tic yn y blwch gyferbyn â'r llinell honno, cewch ddewis un o blith arddulliau paragraff eich dogfen. Bydd yr arddull honno'n gweithredu fel toriad llinell, gan hollti'r cynnwys yn ddwy dudalen o flaen testun sydd â'r arddull honno wedi'i dewis ar ei gyfer.

Defnyddio arddull paragraff i nodi toriad llinell

Mae dau ddewis posib wrth ddefnyddio arddull paragraff i nodi toriad llinell.

1. Creu arddull paragraff 'Toriad Tudalen' penodol

Y dewis cyntaf yw creu arddull paragraff yn benodol ar gyfer ei defnyddio fel y defnyddir toriad tudalen cyffredin.

Gellir gwneud hyn drwy ddilyn y camau canlynol:

1. Creu arddull paragraff newydd a'i alw'n *Toriad Tudalen*.
2. Creu llinell newydd (drwy wasgu Enter) lle dymunir gosod toriad tudalen.
3. Dewis y llinell newydd, a gosod yr arddull *Toriad Tudalen* arni. I bob pwrpas, bydd hyn yn trosi'r llinell honno yn doriad tudalen o fewn yr e-lyfr.
4. Pan fydd y ddogfen orffenedig yn barod i'w chynhyrchu ar ffurf e-lyfr:
 - a. *File > Export > Save as type: EPUB*
 - b. Clicio ar *Contents*
 - c. Rhoi tic yn y blwch ger *Break Document at Paragraph Style*
 - d. Dewis *Toriad Tudalen* o'r gwymplen *Paragraph Style*

2. Peri bod teitlau penodau yn gweithredu fel toriad tudalen

Yn hytrach na chreu arddull paragraff yn benodol ar gyfer toriadau tudalen, y dewis arall yw defnyddio *Break Document at Paragraph Style* i osod toriadau tudalen ynghlwm wrth arddull paragraff teitl pob pennod.

Er mwyn gwneud hyn rhaid inni ychwanegu teitl pennod i'r ddogfen.

I wneud hynny, cliciwch o fewn y maes testun ar dudalen wag gyntaf y ddogfen a theipio 'Pennod 1', ac yna pwyswch *Enter*.

Y cam nesaf yw creu arddulliau ar ei gyfer. I greu arddull ar gyfer teitlau penodau'r ddogfen, dilynwch y camau hyn:

1. Clicio ar yr eicon *Create a new style* yn y ffenestr *Paragraph Style*
2. Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull i agor y ffenestr *Paragraph Style Options*
3. Teipiwch 'Teitl Pennod' dros y teitl presennol yn y blwch *Style Name*
4. Cliciwch ar *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith.
5. Newidiwch *Font Style*: i **Bold**
6. Newidiwch *Size*: i faint addas, e.e. *18pt*

7. Cliciwch ar *OK*.
8. Pan fydd y ddogfen orffenedig yn barod i'w chynhyrchu ar ffurf e-lyfr:
 - a. *File > Export > Save as type: EPUB*
 - b. Clicio ar *Contents*
 - c. Rhoi tic yn y blwch ger *Break Document at Paragraph Style*
 - ch. Dewis *Teitl Pennod* o'r gwymplen *Paragraph Style*

II.8 Ychwanegu paragraffau testun

Yna teipiwch neu gopïo a gludo testun o ffynhonnell arall hyd nes bod gennych tua hanner tudalen o destun mewn tri neu bedwar paragraff. Gellir cynhyrchu testun ffug ar wefannau fel <http://www.lipsum.com> a <http://www.adhesiontext.com/> os oes angen.

Paragraff a gofod yn ei ddilyn

Gan nad yw'r fformat e-lyfr EPUB yn cadw llinell wag rhwng dau baragraff a gynhyrchir drwy bwyso Enter ddwywaith, rhaid creu arddull paragraff er mwyn gosod gofod ar ôl paragraffau sydd ei angen.

I greu arddull paragraff a gofod ar ei ôl, dilynwch y camau hyn:

1. Cliciwch ar yr eicon *Create a new style* yn y ffenestr *Paragraph Style*
2. Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull a grëwyd i agor y ffenestr *Paragraph Style Options*
3. Teipiwch 'Paragraff Gofod Dilynol' dros y teitl presennol yn y blwch *Style Name*
4. Cliciwch ar *Indents and Spacing* yn y ddewislen ar y chwith
5. Newidiwch *Space After* i faint addas, e.e. *5mm*
6. Cliciwch ar *OK* i gadw eich newidiadau

Gallwn ddefnyddio'r arddull paragraff hon yn sail ar gyfer paragraffau â nodweddion ychwanegol, er enghraifft paragraffau â'r llinell gyntaf wedi ei mewnnoli.

Paragraff â'r llinell gyntaf wedi ei mewnnoli

Mewn llyfrau ffuglen, fel arfer, bydd llinell gyntaf pob paragraff, ac eithrio'r paragraff cyntaf mewn adran, yn cael ei mewnnoli.

Gallwn atgynhyrchu hyn drwy greu arddull paragraff newydd â'r llinell gyntaf wedi ei mewnnoli. Byddwn yn seilio'r arddull paragraff hon ar yr arddull paragraff *Paragraff Gofod Dilynol*. Bydd hyn yn golygu y bydd yn cadw'r gofod dilynol ac y bydd gofod dilynol y ddwy arddull wastad yn gyson a'i gilydd.

I greu'r arddull, cliciwch ar yr eicon *Create a new style* yn y ffenestr *Paragraph Style*

1. Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull i agor y ffenestr *Paragraph Style Options*.
2. Teipiwch 'Paragraff Mewnoliad' dros y teitl presennol yn y blwch *Style Name*.
3. Cliciwch ar *Based On* a dewis yr arddull *Paragraff Gofod Dilydol*.
4. Cliciwch ar *Indents and Spacing* yn y ddewislen ar y chwith.
5. Newidiwch *First Line Indent* i faint addas, e.e. 10mm.
6. Cliciwch ar *OK* i gadw eich newidiadau.

Gosod yr arddulliau paragraff ar y paragraffau priodol

Gosodwch yr arddull *Paragraff Gofod Dilydol* ar y paragraff cyntaf gan nad ydym am i linell gyntaf y paragraff hwnnw gael ei mewnoli.

Ar gyfer yr ail baragraff a'r paragraffau sy'n dilyn o fewn yr un adran, gosodwch yr arddull *Mewnoli Paragraff* arnynt.

Cysylltnodi a rhannu geiriau

Nid yw'r mwyafrif o e-ddarllenwyr a brofwyd yn cysylltnodi testun e-lyfrau (mae rhai e-ddarllenwyr, megis Kobo, yn eithriadau). Yr arfer yw gadael ymyl dde testun y dudalen yn anwastad tra bod yr ymyl chwith wedi'i unioni. Gellir arbrofi gyda defnyddio cysylltnodau meddal (http://en.wikipedia.org/wiki/Soft_hyphen) ar eiriau hir, ond nid yw'r modd yr ymdrinnir â hwy ar e-ddarllenwyr yn gyson. Cofiwch fod cysylltnodi priodol yn amrywio o iaith i iaith. Nid yw rheolau rhannu geiriau sydd wedi'u llunio ar gyfer y Saesneg yn addas ar gyfer y Gymraeg, oherwydd rhennir deugraffau fel 'dd', 'll' a 'rh', er enghraifft. Mae hyn yn arfer anghydnaws â'r Gymraeg a dylid ei osgoi ar bob cyfrif.

Allforio Tagiau (Export Tagging)

I'r rhai sy'n gyfarwydd â golygu CSS, mae'r ddewislen *Export Tagging* yn y ffenestr *Paragraph Style Options* a *Character Style Options* yn caniatáu i chi osod arddulliau CSS penodol i gyfateb i'r arddulliau rydych wedi eu defnyddio yn eich dogfen. Gweler y tudalennau gwe hyn am ragor o wybodaeth:

- Export Tagging to the Rescue!
<http://www.creativeprogression.com/taking-the-cs5-5-epub-plunge-export-tagging-to-the-rescue/>
- Preparing your InDesign files for ePub Export
<http://labs.oreilly.com/Bilodeau-IDtoEPub.pdf>

II.9 Ychwanegu llythrennau ag acenion

Gallwch ddefnyddio eich dull arferol i ychwanegu llythrennau acennog fel *ŵ* ac *ŷ* i'r ddogfen yn uniongyrchol yn y maes testun.

Dyma grynodedb o'r dulliau ar gyfer eu hychwanegu gyda gwahanol systemau:

Windows

Os nad yw eisoes wedi'i ddewis, rhaid dewis yr UK Extended Keyboard:

Windows 7

Start > Control Panel > Change Keyboards or other input methods > Change keyboards > United Kingdom Extended

Wedi gwneud hynny, gellir cynhyrchu llythyren ac acen arni drwy bwysu Alt Gr a bysell acen ar yr un pryd ac yna bwysu bysell y llythyren briodol.

Gellir creu llythyren ag acen grom drwy bwysu Alt Gr a 6 gyda'i gilydd ac yna bwysu bysell y llythyren. Er enghraifft, i greu *ŷ*, dylid pwysu:

Alt Gr a 6, yna *y* i greu *ŷ*

Gellir creu priflythrennau ag acen hefyd:

Alt Gr a 6, yna *Shift* ac *y* i greu *Ŷ*

Dyma restr o'r cyfuniadau gan ddefnyddio'r llythyren *y* fel enghraifft:

- *Alt Gr* ac *y* i greu *ý*
- *Alt Gr* a 2, yna *y* i greu *ÿ*
- *Alt Gr* a 6, yna *y* i greu *ŷ*
- *`* ac yna *y* i greu *ỳ*

(*`* yw'r fysell o dan Escape ac i'r chwith o 1 ar y bysellfwrdd)

Mac OS X

Mae bysellfwrdd ar gyfer y Gymraeg ar gael ar gyfer fersiwn 10.3 ymlaen o Mac OS X. Gellir dod o hyd i hwn o dan Systems Preferences yn y ddewislen Apple. Am ragor o wybodaeth am greu llythrennau ag acenion ar gyfrifiaduron Apple, cyfeiriwch at Gymorth Mac OS ei hun.

Meddalwedd To Bach

Dewis arall yw To Bach gan gwmni Draig, meddalwedd ar gyfer Windows sy'n hwyluso gosod toeon bach ac acenion eraill ar lythrennau. Gallwch ei lawrlwytho o <http://www.draig.co.uk/en-GB/download-27.aspx>. Pan fydd wedi'i osod bydd modd i chi greu llythyren ag acenion drwy ddal Alt Gr i lawr a phwysu'r llythyren sydd angen yr acen.

- *Alt Gr* ac *y* i greu *ŷ*
- *Alt Gr* ac */*, yna *y* i greu *ý*
- *Alt Gr* a *2*, yna *y* i greu *ÿ*

InDesign

Gellir hefyd ychwanegu llythrennau acennog fel *ŵ* ac *ŷ* i'r ddogfen yn InDesign drwy ddefnyddio'r ffenestr Glyphs. Os nad yw yn y golwg ar ochr dde y sgrin, gallwch ei hagor drwy glicio ar:

Window > Type & Tables > Glyphs

Yn y ddewislen *Show* gellir dewis y set briodol o glyffiau.

Mae'r acenion ar gyfer *a*, *e*, *i*, *o* ac *u* i'w cael yn y set *Basic Latin and Latin 1*, a'r acenion crom (to bach) ar gyfer *w* ac *y* yn rhan o set *Extended Latin A*.

Acenion sy'n digwydd yn y Gymraeg

Mae'r acenion hyn yn bosib yn y Gymraeg:

á é í ó ú w ý

â ê î ô û w ŷ

ä ë ï ö ü w ŷ

à è ì ò ù

Fel arfer y llythrennau *ŵ*, *ŷ*, *Ŵ*, ac *Ŷ* yw'r rhai problemus. Gall hyn fod oherwydd:

- ni chafodd y llythrennau acennog eu defnyddio yn y lle cyntaf
- cafodd y llythrennau acennog eu defnyddio, ond fe droswyd y ddogfen o amgodio fel UTF-8 (sy'n eu cynnwys) i set fel ISO 8859-1 nad yw'n eu cynnwys. Gall hyn ddigwydd yn anfwriadol wrth drosi ffeil o un fformat i'r llall.
- nid yw'r ffont a ddefnyddir yn cynnwys glyff (delwedd o lythyren) ar gyfer y llythrennau hynny. Mae hynny'n syndod o gyffredin.

Ychwanegwch yr acenion uchod i'r paragraffau sydd yn eich dogfen os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Bydd hyn yn caniatáu i chi wirio a yw'r acenion wedi'u trosglwyddo'n gywir wrth greu'r fersiwn EPUB o'r ddogfen yn nes ymlaen.

Crëwyd dogfen brofi er mwyn cynorthwyo gydag adnabod problemau â'r acenion.

II.10 Ychwanegu arddulliau trwm, *italig* a thanlinellu etc.

Rydym eisoes wedi disgrifio arddulliau paragraffau, sef yr arddulliau a ddefnyddir i osod arddullio testun ar lefel y paragraff. Er mwyn gosod arddull ar ddarnau unigol o destun o fewn paragraffau (yn hytrach na'r paragraff cyfan), dylid defnyddio arddulliau nodau (*character styles*).

Y defnydd mwyaf cyffredin a wneir o arddulliau nod yw er mwyn gosod arddull teip trwm neu italig, neu danlinellu gair neu eiriau o fewn y testun.

Mae'r ddewislen *Character Styles* yn rhannu'r un ffenestr â'r ddewislen *Paragraph Styles*. Gellir newid rhyngddynt drwy glicio ar y tabiau ar dop y ffenestr. Os nad yw'r ffenestr yn y golwg, gellir ei dangos drwy glicio ar:

Windows > Styles > Character Styles

http://help.adobe.com/en_US/indesign/cs/using/WS60910FA3-2BD7-449d-9904-05CFA551665Da.html

Trwm

I greu arddull nod ar gyfer testun trwm, dilynwch y camau hyn:

1. Cliciwch ar yr eicon *Create a new style* yn y ffenestr *Character Style*
2. Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull a grëwyd i agor y ffenestr *Character Style Options*
3. Teipiwch 'trwm' dros y teitl presennol yn y blwch *Style Name*
4. Cliciwch ar *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith
5. Newidiwch *Font Style* i *Bold*
6. Cliciwch ar *OK* i gadw eich newidiadau

Bydd modd i chi yn awr ddefnyddio'r arddull nod hon ar unrhyw lythyren, gair neu ddilyniant o eiriau sy'n llai na paragraff ac sydd i'w gosod mewn teip trwm.

Italig

I greu arddull nod ar gyfer testun italig, dilynwch y camau hyn:

1. Cliciwch ar yr eicon *Create a new style* yn y ffenestr *Character Style*
2. Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull a grëwyd i agor y ffenestr *Character Style Options*
3. Teipiwch 'italig' dros y teitl presennol yn y blwch *Style Name*
4. Cliciwch ar *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith
5. Newidiwch *Font Style* i *Italic*
6. Cliciwch ar *OK* i gadw eich newidiadau

Bydd modd i chi yn awr ddefnyddio'r arddull nod hon ar unrhyw lythyren, gair neu ddilyniant o eiriau sy'n llai na paragraff ac sydd i'w gosod mewn teip italig.

Tanlinellu

I greu arddull nod ar gyfer testun wedi'i danlinellu, dilynwch y camau hyn:

1. Cliciwch ar yr eicon *Create a new style* yn y ffenestr *Character Style*
2. Dwbl-gliciwch ar enw'r arddull a grëwyd i agor y ffenestr *Character Style Options*
3. Teipiwch 'tanlinell' dros y teitl presennol yn y blwch *Style Name*
4. Cliciwch ar *Basic Character Formats* yn y ddewislen ar y chwith
5. Ticiwch y blwch *underline*
6. Cliciwch ar *OK* i gadw eich newidiadau

Bydd modd i chi yn awr ddefnyddio'r arddull nod hon ar unrhyw lythyren, gair neu ddilyniant o eiriau sy'n llai na paragraff ac sydd i'w danlinellu.

Dewiswch ambell air neu eiriau o fewn paragraffau'r dudalen a gosod yr arddulliau rydych newydd eu creu arnynt.

II.11 Tabl Cynnwys (TOC)

Gall e-lyfr EPUB gynnwys ffeil sy'n rhestru penodau ac adrannau'r llyfr ar ffurf dolenni sy'n galluogi'r darllenydd i neidio'n uniongyrchol i leoliad y rhan honno o'r llyfr. Mae'r rhan fwyaf o ddyfeisiau a rhaglenni meddalwedd e-ddarllen yn gallu dangos yr wybodaeth hon mewn panel llywio sy'n annibynnol ar y ffenestr sy'n dangos testun y llyfr. Gall InDesign greu'r ffeil hon yn awtomatig yn seiliedig ar yr arddulliau paragraff a ddefnyddiwyd gennych ar gyfer y penawdau a geir yn eich dogfen.

I gynhyrchu ffeil TOC ewch i:

Layout > Table of Contents

Yn y maes *Title* rhwch deitl ('Cynnwys', er enghraifft) ar gyfer y dudalen lle bydd y tabl cynnwys yn ymddangos, a dewiswch arddull paragraff ar ei gyfer yn y maes *Style* er mwyn pennu ei ymddangosiad.

Y cam nesaf yw dewis yr arddulliau paragraff sy'n dynodi penodau neu brif adrannau eich llyfr. Yn y ddogfen hon, y brif arddull paragraff yw *Teitl Pennod*, felly dewiswch *Teitl Pennod* o'r rhestr *Other Styles* ac yna clicio ar *Add* er mwyn eu symud draw i'r rhestr *Include Paragraph Styles*.

Gallwn hefyd ddewis is-adrannau y dylent ymddangos yn y tabl cynnwys. Dewiswch *Heading 1* o'r rhestr *Other Styles* ac yna cliciwch ar *Add* er mwyn eu symud hwythau draw i'r rhestr *Include Paragraph Styles*.

Os ydych yn dymuno, gallwch hefyd bennu arddull y gwahanol elfennau yn y rhestr, a defnyddio'r maes *Level* i reoli eu hierarchaeth.

Wedi i chi glicio ar *OK*, bydd eicon y pwyntydd yn newid. Rhaid gosod y tabl cynnwys a gynhyrchir drwy glicio ar dudalen briodol yn y eich dogfen. Cofiwch ychwanegu toriad tudalen ar ei ôl.

II.12 Cynhyrchu'r e-lyfr EPUB

Nawr fod cynnwys yn y ddogfen, mae'n bryd i ni droi ein sylw at baratoi'r ddogfen ar gyfer ei throsi'n e-lyfr.

Ychwanegu Metadata

Yn gyntaf, mae angen ychwanegu gwybodaeth am y llyfr i'r ddogfen fel metadata. Mae hyn yn cynnwys enw'r awdur, teitl y llyfr, rhif ISBN, ac yn y blaen.

Yn InDesign, mae modd ychwanegu'r data hwn i'r ddogfen trwy glicio ar:

File > File Info

Bydd hyn yn agor ffenestr *File Information* ar gyfer y ddogfen.

Mae'n syniad llenwi'r holl feysydd sydd o dan y tab *Description* os oes modd. Y meysydd sydd ar gael yw:

- Document Title
- Author
- Author Title
- Description
- Rating
- Description Writer
- Keywords
- Copyright Status
- Copyright Notic
- Copyright Info URL

Bydd yr holl ddata yn cael ei ychwanegu i'r e-lyfr er mwyn helpu gyda'i ddosbarthu a'i gatalogio'n gywir, a bydd yn hwyluso'r defnyddwyr i'w ddarganfod wrth chwilio am chwileiriau perthnasol. Yr wybodaeth a geir yma a fydd yn cael ei defnyddio gan e-ddarllenwyr a gwefannau sy'n dosbarthu'r e-lyfr er mwyn dangos manylion megis enw'r awdur, ei deitl, ac yn y blaen, NID cynnwys testun y ddogfen ei hun.

Noder y caiff enw'r cyhoeddwr ei ychwanegu mewn cam pellach. Caiff y dyddiad cyhoeddi ei ychwanegu'n awtomatig.

Gosod Meddalwedd E-ddarllen

Yn ail, dylid sicrhau bod meddalwedd e-ddarllen wedi'i gosod ar y cyfrifiadur. Mae Adobe Digital Editions a Calibre yn raglenni y gellir eu lawrlwytho a'u gosod ar eich cyfrifiadur am ddim.

Gydag Adobe Digital Editions gallwch ddarllen ffeiliau EPUB sydd â DRM Adobe arnynt ar eich cyfrifiadur. Mae'n bwysig gwirio ymddangosiad y llyfr yn y rhaglen hon gan ei bod yn debyg y bydd carfan helaeth o ddarllenwyr yn ei defnyddio.

Mae Calibre yn rhaglen cod agored ddefnyddiol. Ni fydd yn gallu agor y ffeil EPUB unwaith y bydd Gardners wedi gosod y DRM arni, ond mae'n rhaglen anhepgor ar gyfer gwirio ac archwilio gosodiadau metadata'r ffeil EPUB cyn ei hanfon atynt.

Awgrymwn eich bod yn gosod y rhaglenni uchod ar eich cyfrifiadur. Bydd hyn yn eich galluogi i agor yr e-lyfr gorffenedig wedi iddo gael ei gynhyrchu a bwrw golwg fanwl drosto.

Dewisiadau Creu EPUB

Mae nodwedd cynhyrchu ffeil EPUB InDesign ar gael drwy glicio ar *File > Export* ac yna ddewis EPUB o'r gwymplen *Save as type*.

Bydd clicio ar *Save* yn agor ffenestr *EPUB Export Options* a fydd yn cynnwys lluo o ddewisiadau sy'n pennu sut y bydd yr EPUB yn cael ei chynhyrchu.

Dyma'r gosodiadau rydym yn eu hargymhell fel man cychwyn:

Tab 'General'

- EPUB

- EPUB Cover

Mae'n syniad da darparu clawr ar gyfer eich e-lyfr, mae dau ddewis mewn gwirionedd, sef:

1. Trosi tudalen gyntaf eich dogfen InDesign yn ddelwedd a'i defnyddio fel clawr.
 - Os delwedd o glawr eich llyfr yw tudalen gyntaf eich dogfen InDesign beth bynnag, mae hyn yn hwyluso defnyddio'r clawr hwnnw fel clawr yr e-lyfr.
 - Os testun sydd ar eich clawr, bydd y testun hwn yn cael ei droi'n ddelwedd o'r testun a'i ddefnyddio fel clawr.

I ddewis y dull hwn, cliciwch ar: *Rasterise First Page*.

2. Nodi lleoliad delwedd o glawr a grëwyd y tu allan i InDesign a'i ymgorffori o fewn yr e-lyfr er mwyn ei defnyddio fel clawr.

Y maint a argymhellir fel arfer gan gwmnïau dosbarthu e-lyfrau yw 600px (lled) wrth 800px (uchder). Awgrymir hefyd y dylid cadw maint y ffeil rhwng tua 80 a 200KB.

Wedi dweud hynny, mae maint a chydriiad dyfeisiau yn esblygu'n barhaol.

- Ordering
- Formatting Options
- View EPUB after Exporting

I ddewis y dull hwn, cliciwch ar *Use Existing Image File* a darparu llwybr i'r ffeil y dymunwch ei defnyddio.

Tab 'Image'

Gadael y rhain fel y maent

Tab 'Contents'

- Format for EPUB Content
- Contents
 - Rhoi tic wrth Break Document at Paragraph Style
 - Dewis yr arddull paragraff addas:
 - Toriad Tudalen os ydych wedi defnyddio'r arddull paragraff Toriad Tudalen i nodi lle dylid rhannu tudalennau gan fod angen rheoli hynny'n fanwl gennych
 - Teitl Pennod os llyfr syml sydd gennych a dim ond o flaen teitl penodau y mae angen toriad tudalen.
- CSS Options
 - Generate CSS a rhoi tic wrth Include Embeddable Fonts

(Mae mewnblannu ffont addas yn sicrhau y bydd e-ddarllenwyr fel Adobe Digital Editions yn dangos $\hat{w}$ ac $\hat{y}$ yn gywir)

Pan fyddwch yn hapus â'r dewisiadau, ticiwch yn y blwch *View EPUB After Exporting* a chlicio ar y botwm *OK* er mwyn cynhyrchu'r ffeil EPUB.

Os ydych wedi gosod Adobe Digital Editions ar eich cyfrifiadur fel y rhaglen a ddefnyddir i agor ffeiliau .epub, bydd eich e-lyfr yn agor yn Adobe Digital Editions. Gallwch yn awr fwrw golwg ar gynnwys y llyfr er mwyn ceisio adnabod unrhyw broblemau gyda'r gosodiad. Gall hyn gynnwys achosion lle na ddefnyddiwyd yr arddull paragraff neu arddull nod cywir, neu ddiffyg toriad tudalen yn y man cywir.

Os ydych yn dod ar draws problem, ewch yn ôl i'r ffeil yn InDesign i'w chywiro, cau Adobe Digital Editions, a chynhyrchu'r EPUB eto. Ailadroddwch y camau hynny hyd nes eich bod yn hapus â'ch e-lyfr.

II.13 Dilysu

Gellir dilysu e-lyfr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau EPUB drwy ddefnyddio rhaglenni pwrpasol sy'n cymharu cod yr e-lyfr â'r hyn â ragnodir gan y safon honno.

Mae gwefannau ar gael sy'n cynnig gwasanaeth dilysu e-lyfrau, e.e.

<http://threepress.org/document/epub-validate>, ond nid yw'r rhain mewn gwirionedd yn addas ar gyfer defnydd masnachol gan eich bod, wrth eu defnyddio, yn cyflwyno copi heb ei ddiogelu o gynnwys yr e-lyfr i drydydd parti.

Yn hytrach, mae'n well defnyddio rhaglenni dilysu y mae modd eu gosod yn lleol ar eich cyfrifiadur, e.e. FlightCrew: <http://code.google.com/p/flightcrew/>, gan na fydd y ffeil yn gadael eich cyfrifiadur o'u defnyddio.

Mae nodwedd ddilysu hefyd ar gael yn Sigil, rhaglen am ddim ar gyfer creu a golygu e-lyfrau. Defnyddia'r un cod yn union â FlightCrew.

II.14 Gwirio pellach

Dilysiad technegol yn unig yw'r dilysu a wneir gan raglenni dilysu EPUB. Nid yw'r ffaith fod e-lyfr EPUB yn pasio'r broses ddilysu yn golygu y bydd yr e-lyfr yn ymddangos yn union fel y bwriadwyd gennych ym mhob dyfais neu raglen e-ddarllen gan fod y modd y mae'r gwahanol e-ddarllenwyr yn dehongli safon EPUB yn amrywio. Y gwirionedd yw fod gan y mwyafrif o e-ddarllenwyr ambell chwinc, ac o ganlyniad argymhellir gwirio ymddangosiad yr e-lyfr a gynhyrchwyd ar gynifer o ddyfeisiau ac mewn cynifer o raglenni e-ddarllen ag y mae modd, gan flaenoriaethu'r dyfeisiau mwyaf poblogaidd.

E-ddarllenwyr sy'n gweithio gydag Adobe eBook DRM

Gellir cael rhestr o'r dyfeisiau sydd â thrwydded i ddangos e-lyfrau EPUB gyda DRM Adobe yma:

<http://blogs.adobe.com/digitalpublishing/supported-devices>

Dyma restr o'r rhai hynny sydd ar gael ar gyfer dyfeisiau amlbwrrpas symudol:

Android

- Aldiko
- Biblet
- BlueFire
- DL Reader

- Emviem
- ePagine Reader
- Gato Sabido
- Google Books
- Kalahari.net eReader
- Sony Reader App
- TookBook

iOS

- Book Shelf
- Bertelsmenn
- BlueFire
- DL Reader
- aNobii Reader
- Kobo
- Libranda
- Emviem
- Numilog Reader
- Biblet
- txtr

Gall y problemau a geir wrth brofi e-lyfr ar yr e-ddarllenwyr hyn amrywio o broblemau gydag edrychiad yr e-lyfr (arddulliau heb eu defnyddio'n gywir, acenion coll, ac elfennau fel tablau a delweddau wedi'u torri) i broblemau mwy difrifol sy'n rhwystro'r e-lyfr rhag agor yn llwyddiannus.

Awgrymir canolbwyntio ar sicrhau bod yr e-lyfr yn gweithio ar Adobe Digital Editions. Mae trafodaethau ar y gweill i weld a oes modd datblygu fersiwn o Bluefire Reader sy'n addas ar gyfer y Gymraeg, ond ar hyn o bryd y feddalwedd sy'n cael ei ffafrio gan Gardners yw Digital Editions.

Chwinciau Hysbys E-ddarllenwyr

Nid yw'r ffont a ddefnyddir gan Adobe Digital Editions yn cynnwys $\hat{w}$ ac $\hat{y}$. Er mwyn i Adobe Digital Editions ddangos $\hat{w}$ ac $\hat{y}$ yn hytrach na ? , rhaid mewnlannu ffont.

Nid yw pob e-ddarllenydd yn cefnogi mewnlannu ffontiau. Os ydych chi'n creu e-lyfr â ffont wedi'i fewnlannu er mwyn i'r *ŵ* a'r *ŷ* ddangos yn gywir, bydd rhai e-ddarllenwyr yn anwybyddu'r ffont hwnnw, neu mewn achosion prin yn gwrthod agor yr e-lyfr o gwbl.